Nodiadau Athrawon

# Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC




## PWNC

Erledigaeth yr Iddewon gan y Natsïaid yn yr Almaen Cyn y Rhyfel

Hawliau Dynol Cyffredinol

## GRŴP OEDRAN

Blynyddoedd 7-11 (12-16 oed)
Camau Cynnydd 4 a 5

## HYD

1 awr

## MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

## DISGRIFIAD

***Rhybudd:* Mae'r gweithgaredd hon yn cynnwys tystiolaeth fideo sy'n cyfeirio at gam-drin treisgar mewn gwersyll crynhoi cyn y rhyfel.**

Yn y gweithgaredd hon, bydd myfyrwyr yn dysgu am erledigaeth yr Iddewon gan y Natsïaid yn yr Almaen cyn yr Ail Ryfel Byd ac yn myfyrio ar y cysyniad o hawliau dynol cyffredinol.

Bydd myfyrwyr yn dysgu am gronoleg erledigaeth Iddewon yr Almaen gan y Natsïaid yn ystod y cyfnod 1933-1939. Mae'r gweithgaredd yn integreiddio tystiolaeth fideo Irene Kirstein Watts, ffoadur Kindertransport, ag adnoddau sy'n ymwneud â digwyddiadau hanesyddol allweddol a chyfreithiau Natsïaidd yn y cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd. Nod hyn yw darparu sylfaen i archwilio sut y gall rhagfarn a throseddau hawliau dynol gyfrannu at drais, erchylltra torfol, a hil-laddiad.

Ar yr un pryd, mae'r gweithgaredd yn annog myfyrwyr i ystyried yr effaith ddynol a gafodd yr erledigaeth hon ar deuluoedd unigol, gan bwysleisio dynoldeb dioddefwyr yr Holocost.

Yn olaf, bydd myfyrwyr yn archwilio'r gwerthoedd sy'n sail i hawliau dynol a chreu'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol ym 1948, gan ganiatáu i fyfyrwyr fyfyrio ar bwysigrwydd hawliau o'r fath a sut y gellir eu hamddiffyn.

Gellir rhannu'r gweithgaredd yn hawdd yn ddwy sesiwn lle bo angen – gellir cyflawni Tasgau 1-3 yn y sesiwn gyntaf a gellir cwblhau Tasgau 4 a 5 mewn ail sesiwn.*

## NODAU DYSGU

O ganlyniad i gwblhau'r gweithgaredd hwn bydd myfyrwyr yn:

- Myfyrio ar y cysyniad o hawliau dynol.

*Ceir rhestr lawn o weithgareddau ar ddiwedd y ddogfen hon.

## NODAU DYSGU (parhad)

- Deall sut y treiddiodd gwrth-semitiaeth i gymdeithas yr Almaen, yn gyfreithiol ac yn gymdeithasol, yn ystod y cyfnod 1933-1939.
- Cydnabod bod erledigaeth yr Iddewon gan y Natsïaid yn ystod 1933-1939 wedi cynyddu dros amser.
- Myfyrio ar yr effaith ddynol a gafodd yr erledigaeth hon ar y gymuned Iddewig.
- Dysgu am y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) a deall sut y tramgwyddwyd yr hawliau hyn yn yr Almaen yn ystod 1933-1939.
- Myfyrio ar gyfrifoldeb yr unigolyn i amddiffyn hawliau dynol.
- Dysgu am y cysylltiad â Chymru trwy dystiolaeth fideo ffoadur Kindertransport.

## OFFER SYDD EI ANGEN

Bwrdd gwyn/marcwyr, taflunydd, cyfrifiadur i wrando ar dystiolaeth.

## Ystyriwch

Dywedwch wrth y myfyrwyr eu bod am ystyried a thrafod y syniad o 'hawliau dynol'.

Ar y bwrdd, lluniwch fap meddwl a gofynnwch i'r dosbarth am eiriau sy'n dod i'ch meddwl yn awtomatig wrth feddwl am hawliau dynol. Anogwch y myfyrwyr i feddwl am y cysyniad cyffredinol yn hytrach na mathau penodol o hawliau. Efallai y byddwch am ofyn cwestiynau fel:

I bwy mae hawliau dynol yn perthyn?
Allwch chi feddwl am yr egwyddorion y mae hawliau dynol yn ymwneud â nhw (ee, tegwch)?
Pa feysydd mewn bywyd y mae hawliau dynol yn berthnasol iddynt (ee, cymdeithasol, economaidd, sifil a gwleidyddol)?

Gallai fod o gymorth ystyried y dyfyniadau hyn gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru:

"Hawliau Dynol yw'r hawliau a'r rhyddfreiniau sylfaenol y mae pob person yn y byd yn berchen arnynt. […] Caiff hawliau dynol eu seilio ar egwyddorion craidd, megis urddas, tegwch, cydraddoldeb, parch ac annibyniaeth. Maent yn berthnasol i'ch bywyd beunyddiol ac yn diogelu eich rhyddid i reoli eich bywyd eich hun, cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan awdurdodau cyhoeddus sy'n effeithio ar eich hawliau a chael gwasanaethau teg a chyfartal gan awdurdodau cyhoeddus."[1]

[1] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, *Hawliau Dynol yng Nghymru* (2019) <https://www.equalityhumanrights.com/cy/hawliau-dynol-yng-nghymru> [cyrchwyd 6 March 2022].


© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru
© 2022 USC Shoah Foundation

## Ystyriwch (parhad)

Ar y daflen waith i fyfyrwyr, gofynnwch i’r myfyrwyr ysgrifennu pum hawl benodol sy’n dod i’r meddwl pan fyddant yn meddwl am hawliau dynol (**Tasg 1**).

## Casglu

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen **Taflen 1**. Mae'r daflen hon yn nodi amserlen rhai o'r cyfreithiau a ddefnyddiwyd yn yr Almaen Natsïaidd i erlid pobl Iddewig rhwng 1933 a 1939 (cyn yr Ail Ryfel Byd).

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i’r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar y daflen waith i fyfyrwyr (**Tasg 2**).

Dylai myfyrwyr nodi bod y ddeddfwriaeth wedi ymwthio i bron bob rhan o fywyd a bod erledigaeth yr Iddewon gan y Natsïaid wedi cynyddu dros amser. Efallai y byddant am sylwi ar grynhoad o ddeddfau yn 1938 yn benodol.

Nesaf, gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen **Taflen 2**: Llinell amser digwyddiadau hanesyddol, 1933-39. Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i’r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar y daflen waith i fyfyrwyr sy’n ymwneud â’r daflen hon (**Tasg 2**).

Nesaf, gofynnwch i'r myfyrwyr edrych ar y ffotograffau sydd wedi eu cynnwys yn **Nhaflen 3**. Gan weithio mewn parau/grwpiau, gofynnwch iddynt baru’r ffotograffau â’r cyfreithiau y cyfeirir atynt yn **Nhaflen 1** neu’r digwyddiadau hanesyddol yn **Nhaflen 2**. Yna gofynnwch i bob myfyriwr ddewis un ffotograff o **Daflen 3** ac ysgrifennu amdano (gan ddefnyddio'r cwestiynau canllaw yn nhaflen waith y myfyriwr).

Yn olaf, rhowch y disgrifiadau canlynol ar gyfer pob ffotograff a nodir yn **Nhaflen 3** ac yna gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu un peth a ddysgwyd ganddynt o'r esboniadau hyn - neu beth arall yr hoffent ei ddeall am ffotograff penodol.

*Ffotograff 1:*

https://collections.ushmm.org/search/catalog/pa1176817 - enghraifft o'r *Gyfraith ar Newid Enwau Teuluol a Phersonol* : Pasbort Almaenig Annemarie Israelski, yn dangos yr enw 'Sara'.

United States Holocaust Memorial Museum Photo Archives #97638.

Trwy garedigrwydd Annemarie Warschauer. Hawlfraint United States Holocaust Memorial Museum.


© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Adnodd wedi’i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

## Casglu (parhad)

*Ffotograff 2:*

https://collections.ushmm.org/search/catalog/pa1087403 - Arthur Lewy yn ymgynghori â chwsmer yn ei siop dybaco yn Berlin, 1929. Ar ôl yr *Archddyfarniad ar Wahardd Iddewon o Fywyd Economaidd*, gorfodwyd Arthur i 'Arieiddio ' ei siop ac ni allai weithio mwyach.

United States Holocaust Memorial Museum Photo Archives #24804.

Trwy garedigrwydd Stephan H. Lewy. Hawlfraint of United States Holocaust Memorial Museum.

*Ffotograff 3:*

https://collections.ushmm.org/search/catalog/pa1117675 - Tu mewn i synagog Zerrennerstrasse ar ôl ei ddinistrio yn ystod pogrom *Kristallnacht (* Pforzheim, yr Almaen).

United States Holocaust Memorial Museum Photo Archives #97573.

Trwy garedigrwydd Stadtarchiv Pforzheim.

*Ffotograff 4:*

https://collections.ushmm.org/search/catalog/pa1032503 - Plant sy'n ffoaduriaid Iddewig, sy'n aelodau o'r Kindertransport cyntaf o'r Almaen, yn cyrraedd Harwich, Lloegr.

United States Holocaust Memorial Museum Photo Archives #02725.

Trwy garedigrwydd Instytut Pamieci Narodowej.

Nesaf, bydd y myfyrwyr yn clywed gan Irene Kirstein Watts, plentyn oedd wedi ffoi, a ddaeth i Gymru yn ystod y 1930au i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen cofiant Irene a gwylio fideo byr, lle mae Irene yn disgrifio ei phrofiad o fod yn blentyn Iddewig yn Berlin, yr Almaen yn y 1930au.

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar y daflen waith i fyfyrwyr (**Tasg 3**).

Mae'r dystiolaeth fideo a'r taflenni'n dangos sut y gwnaeth yr Almaen Natsïaidd yn raddol ynysu, gwahanu, anghyfoethogi, a charcharu Iddewon rhwng 1933 a 1939. Mae'r Tasgau hefyd yn adeiladu i ddangos natur gynyddol erledigaeth ac yn amlygu bod yr Holocost yn broses a ddigwyddodd dros amser ac yn cynnwys llawer o bobl. Mae'n caniatáu i fyfyrwyr ddod i gasgliadau am gydberthynas amser, cyfreithiau, a digwyddiadau hanesyddol ac yn meithrin meddwl yn feirniadol am yr effaith ar y rhai a dargedir drwy erledigaeth, ar lefel grŵp ac unigol.



© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

## Casglu (parhad)

Yn benodol – anogwch y myfyrwyr i archwilio sut roedd dileu hawliau dynol sylfaenol yn un o'r ffactorau a gyfrannodd at ynysu a phardduo'r bobl Iddewig ac a greodd hinsawdd o elyniaeth a difaterwch tuag at eu cyflwr, gan baratoi'r ffordd ar gyfer trais *Kristallnacht* – ac yn y pen draw llofruddiaeth chwe miliwn o Iddewon gan y gyfundrefn Natsïaidd, y rhai oedd yn eu cefnogi a'r rhai oedd yn gweithredu ar y cyd â nhw.

Taflwch y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) ar y bwrdd gwyn a gofynnwch i'r myfyrwyr ei ddarllen: https://www.un.org/en/about-us/universal-declaration-of-human-rights.

Eglurwch i'r myfyrwyr fod yr UDHR wedi'i fabwysiadu gan y Cenhedloedd Unedig ar 10 Rhagfyr 1948. Roedd yn ganlyniad i brofiad yr Ail Ryfel Byd ac yn cynrychioli ymrwymiad gan y gymuned ryngwladol i beidio byth â gadael i erchyllterau'r Holocost ddigwydd eto.

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar y daflen waith i fyfyrwyr (**Tasg 4**).

Anogwch y myfyrwyr i ystyried bod digwyddiadau hanesyddol yn cael eu dylanwadu gan benderfyniadau, gweithredoedd, a hepgoriadau dynol ac y gallai hanes yr Holocost fod wedi dilyn cwrs gwahanol pe bai mwy o unigolion wedi gwneud eu penderfyniadau yn seiliedig ar yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn yr UDHR. Efallai y bydd myfyrwyr hefyd am drafod gwerth a dulliau o gymryd rhan mewn dadleuon gwleidyddol a chymdeithasol mewn bywyd cyfoes.

## Llunio

**Tasg 5**: Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu erthygl papur newydd ar yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn y gweithgaredd hon.

Er enghraifft, gallai fod yn erthygl yn adrodd ar erledigaeth yr Iddewon gan y Natsïaid cyn yr Ail Ryfel Byd, yn erthygl yn adrodd ar yr ymateb rhyngwladol i'r erledigaeth hon yng Nghynhadledd Evian ym mis Gorffennaf 1939, neu'n erthygl yn adrodd ar y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Anogwch y myfyrwyr i gyfeirio at yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i'r UDHR.

## Cyfatherbu

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen erthygl a ysgrifennwyd gan fyfyriwr arall. Yna gofynnwch iddynt drafod y themâu a nodir yn yr erthyglau y maent wedi'u darllen ac a yw'r rhain yr un peth neu'n wahanol i'r rhai yn eu herthygl eu hunain.


© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Adnodd wedi'i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

Nodiadau Athrawon

# Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu

## Atodiadau

1. Taflen 1: Detholiad o ddeddfau gwrth-Iddewig y Natsïaid, 1933-39.
2. Taflen 2: Llinell amser digwyddiadau hanesyddol, 1933-39.
3. Taflen 3: Ffotograffau.
4. Taflen 4: Trawsgrifiad Fideo.
5. Taflen 5: Taflen Waith y Myfyrwyr.

## Rhestr o Weithgaredddau

Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir.
Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 – Y Daith.
Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru.
Gweithgaredd 4: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd.
Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu.
Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.
Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 1.
Gweithgaredd 8: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 2.
Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb.
Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio.

## Delwedd Clawr

Irene Kirstein Watts yn 1937, 6 oed. Delwedd o gyfweliad Irene Kirstein Watts o archif USC Shoah Foundation – The Institute for Visual History and Education, 1998. Am ragor o wybodaeth: http://sfi.usc.edu/.

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru



© 2022 USC Shoah Foundation



Adnodd wedi'i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC